# Cemeg feintiol

Mae modelau Frayer yn ffordd syml ond effeithiol o ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o ddarn newydd o eirfa. Byddwch yn gweld beth mae eich dysgwyr yn ei wybod yn barod ac yn adnabod unrhyw gamsyniadau sydd ganddynt. Rhoddir y term allweddol yng nghanol pedwar pedrant; gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r pedrantau yn eu tro.

- **Archwilio:** cysylltwch â chyfalaf gwyddoniaeth a gweld beth mae'r dysgwyr eisoes yn ei ddeall am y term. Gofynnwch i'r dysgwyr ble maent wedi clywed y term o'r blaen, neu beth mae'n gwneud iddynt feddwl amdano.
    - Bydd cysylltiad uniongyrchol rhwng sut mae'r dysgwyr yn ymateb a'u cyfalaf gwyddoniaeth. Darllenwch am fodelau Frayer a chyfalaf gwyddoniaeth yn: rsc.li/4mlll3A
    - Dysgwch ragor am gyfalaf gwyddoniaeth yn: rsc.li/40FAMLP
- **Dadansoddi:** edrychwch ar rannau cyfansawdd y gair i ddeall ei ystyr yn fanylach. Arweiniwch eich dosbarth drwy'r pedrant hwn drwy gyfeirio at yr etymoleg sydd yn adran nodiadau'r sleidiau i'r dysgwyr (ac a adlewyrchir yn y sleidiau atebion).
    - Pan nad oes modd rhannu term yn rhannau cyfansawdd taclus, enw'r pedrant hwn yw '**Beth rydym yn ei wybod am** … '. Mae'n rhestru rhai pwyntiau i hwyluso trafodaeth ac mae hefyd yn cynnwys etymoleg.
- **Egluro**: cyflwynwch y diffiniad. Mae dwy ran i'r pedrant hwn. Yn gyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr ateb y cwestiwn sy'n ymwneud â'r diffiniad, wedyn gofynnwch iddynt gymharu eu hateb â'r diffiniad ar y sleid atebion. Daw'r diffiniadau o restr termau allweddol y pwnc hwn, sydd ar gael yn: rsc.li/3Gi9HHN.
- **Cyfnerthu**: gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth am y term drwy ateb cwestiwn.

## Sut mae defnyddio modelau Frayer

Argraffwch sleidiau model Frayer ar gyfer y termau allweddol rydych chi am eu harchwilio a'u dosbarthu. Gofynnwch i'r dysgwyr blygu ar hyd y llinellau du a chanolbwyntio ar gwblhau un pedrant ar y tro.

- Mae'r llinell ddotiog ym mhedrant tri (**egluro**) yn gwahanu cynigion y dysgwyr ar ddiffinio oddi wrth y diffiniadau a ddarparwyd – mae modd iddynt eu copïo ar y model er gwybodaeth.
- Mae adran nodiadau'r sleidiau i'r dysgwyr yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys yr atebion i bedrannau 2 a 3 er gwybodaeth.

Gofynnwch i'r dysgwyr agor y papur ar ôl iddynt gwblhau eu model a meddwl faint maent yn ei wybod am y term erbyn hyn.

© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

### Ffyrdd eraill o ddefnyddio

- Argraffwch yr adnodd a'i ddefnyddio fel gweithgaredd 'meddwl, paru, rhannu'.
- Defnyddiwch fyrddau gwyn bach i hwyluso'r drafodaeth yn y dosbarth.
- Argraffwch ar fformat mawr (e.e. A3) a chydosodwch orsafoedd gwahanol o amgylch yr ystafell ddosbarth ar gyfer pob model Frayer. Bydd y dysgwyr yn symud o amgylch yr ystafell mewn grwpiau i gwblhau un pedrant ar y tro.

## Sgaffaldio

Mae'r adnoddau hyn ar gael mewn fformat heb ei sgaffaldio (✪✪) ac wedi'i sgaffaldio (✪). I rai dysgwyr, mae'r pedrant **archwilio** yn her benodol, felly rhowch ragor o amser, cymorth a chyfarwyddiadau penodol iddynt er mwyn defnyddio'r modelau hyn. Peidiwch â phoeni os nad yw'n gweithio'r tro cyntaf.

Mae'r fformat wedi'i sgaffaldio yn rhoi'r canlynol i'r dysgwyr:

- awgrymiadau ar gyfer y pedrant **archwilio**
- rhagor o wybodaeth yn yr adran **dadansoddi** ar gyfer cysylltu rhannau cyfansawdd geiriau
- awgrymiadau yn yr adran **egluro** i helpu'r dysgwyr i ateb y cwestiynau
- rhagor o gymorth yn yr adran **cyfnerthu**.

## Awgrymiadau i addasu modelau Frayer

- Tynnwch sylw at ragddodiaid, ôl-ddodiaid a chyfieithiadau cyffredin. Gall hyn fod yn ddefnyddiol i'r dysgwyr.
- Cysylltwch y termau â geiriau tebyg i helpu'r dysgwyr i awgrymu ystyron posibl.
- Yn y pedrant **egluro**, rhowch ddiagramau, enghreifftiau ac enghreifftiau amherthnasol.
- Ychwanegwch gwestiwn ymestynnol at y pedrant **cyfnerthu** i ddyfnhau dealltwriaeth.

Darllenwch ragor am fodelau Frayer a'u defnyddio: rsc.li/4jpOnhW a rsc.li/42paFJL.

© 2026 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol